

Ysgol I.D. Hooson
Heol Caradog
Rhosllannerchrugog
LL14 2DX
Ffôn: 01978 832950
Ffacs: 01978 832955
e-bost: mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk

YSGOL I.D. HOOSON



Medi 1af, 2020

PWYSIG

Annwyl Rieni / Gofalwyr,

Gan obeithio eich bod i gyd yn cadw'n iawn ac wedi cael haf pleserus. Ar ddiwed y tymor diwethaf, fe'ch hysbysyd o wybodaeth yn ymwneud a dosbarth eich plentyn ar gyfer mis Medi 2020, yn ogystal a gwybodaeth gyffredinol ynglyn a dychwelyd i'r ysgol. Rydym i gyd yn wynebu cyfnod heriol gyda'r holl blant yn dychwelyd i'r ysgol, ac felly bydd yn allweddol fod pawb yn dilyn y gofynion a'r trefniadau iechyd a diogelwch. Hoffwn gyflwyno'r wybodaeth ganlynol i chi sydd yn fwy penodol ynglyn a'r trefniadau.

Fel yr ydych yn barod yn wybod, ar gychwyn y tymor byddwn yn gweithredu trefn dychwelyd ble bydd y plant yn dychwelyd yn raddol i'r ysgol. Mi fydd wythnosau cyntaf y tymor yn cael ei defnyddio i ail gyflwyno dosbarthiadau yn ôl i fywyd ysgol, a bydd yn gyfle i nifer llai o ddsbarthiadau fynychu ar yr un diwrnodiau dros y cyfnod hwn, ac yn rhoi cyfle i ni fel ysgol roi cynnig ar y newidiadau yn y trefniadau yn raddol, wrth weithio tuag at i bob dosbarth ddychwelyd erbyn dydd Llun Medi'r 14eg. Ni fydd pob plentyn a dosbarth yn dychwelyd yn syth ar gychwyn y tymor Newydd, bydd peth newidiadau i amserlen y dydd, a fydd yn cynnwys amseroedd cychwyn a gorffen gwahanol i oedranau gwahanol yn ogystal a newidiadau i amserlen y dydd yn benodol yn ymwneud a threfniadau cinio. Mae'r trefniadau yn rhai dros dro, a'r gobaiith yw y byddwn yn gallu gweithio tuag at ddychwelyd i amserlen a threfniadau arferol yr ysgol.

Byddwn yn defnyddio'r cyfnod o ddydd Mawrth Medi'r 1af hyd at ddydd Mercher Medi'r 2ail yn gyfnod i baratoi ar gyfer y plant yn dychwelyd i'r ysgol. Nid dyddiau hyfforddiant fydd rhain fel y trefnwyd yn wreiddiol. Mae'r dyddiau hyfforddiant staff hyn yn awr wedi ei hail drefnu ar gyfer dydd Llun 22ain o Chwefror 2021 a dydd Gwener 26ain o Fawrth 2021.

Ar ddydd Iau Medi'r 3ydd, bydd y grwpiau cyntaf o ddisgyblion yn cychwyn mynychu ac yn dychwelyd i'r ysgol. Disgwylir i bob disgybl sydd yn gallu, i fynychu ysgol yn mis Medi. Rydym yn ymwybodol y gall y sefyllfa o ran y Coronafirws newid, felly os fydd unrhyw newidiadau arwyddocaol a all effeithio ar drefniadau dychwelyd i'ch plentyn, byddwn yn eich hysbysu yn syth.

Byddwn wedi ail-ymweld a asesiad risg covid -19 yr ysgol, ac wedi derbyn cyngor yr Awdurdod Lleol ar hwn cyn i'r plant ddychwelyd. Byddwn yn ymdrechu i osgoi cymysgu grwpiau eang o ddisgyblion, yn atgoffa'r plant yn rheolaidd am reolau ymbellhau a golchi dwylo rheolaidd. Byddem yn gwerthfawrogi eich cymorth gyda hyn, drwy atgyfnerthu'r negeseuon pwysig hyn adref er lles a diogelwch pob plentyn ac oedolyn sydd yn gweithio o fewn yr ysgol. Byddwn yn disgwyl cydweithrediad llawn gan bob plentyn o ran y rheolau hyn. Os y byddwn yn gweld fod unigolyn, yn ei chael hi'n anodd i gadw at y trefniadau a'r rheolau, ac yn rhoi eraill mewn sefyllfaoedd anghyfforddus neu beryglus, byddwn yn cysylltu gyda rhiein/ofalwyr er mwyn trefnu i'r unigolyn gael ei gasglu o'r ysgol er mwyn cael cyfnod hirach o ymarfer y rheolau hyn yn ddiogel adref.

Rydym yn cyflwyno rhai newidiadau i'r amseroedd gollwng a chasglu. Gofynnwn i bob rhiant wneud pob ymdrech er hwylustod y trefniadau yn ogystal a rhesymau diogelwch, i sicrhau fod y plant yn cyrraedd yr ysgol yn brydol ar gyfer yr amseroedd cychwyn a nodir. Byddai yn hwyluso'r trefniadau yn fawr iawn os y gall y rhai ohonoch sydd yn gallu, i gerdded i'r ysgol gyda'r plant gan osgoi dod a cheir i mewn i gampws yr ysgol. Ar gyfer y rhai ohonoch ble mai dod mewn car i'r ysgol fydd yr unig opsiwn, dylid gwneud pob ymdrech i ollwng eich plentyn o fewn cyfnod byr o amser, ac yna unwaith y byddwch yn gweld fod eich plentyn wedi cael mynediad drwy giat yr ysgol ble bydd staff yn goruchwyllo, **dylid symud unrhyw gerbyd yn syth o faes parcio a champws yr ysgol. Gofynnwn hefyd i gerddwyr symud oddi ar gampws yr ysgol unwaith y byddwch yn gweld fod eich plentyn wedi cael mynediad i mewn i'r ysgol. Ni ddylid cyrraedd yr ysgol dim mwy na 5 munud cyn yr amseroedd a nodir ar gyfer cychwyn sesiynau eich plentyn. Yn yr un modd, ni ddylid cyrraedd yr ysgol dim mwy na 5 munud cyn amser casglu eich plentyn ar ddiwedd dydd, ac eto symud yn brydlon oddi ar gampws yr ysgol, unwaith y bydd eich plentyn wedi ei gasglu.**

Cyrraedd / Mynd adref - Yn y bore, bydd y plant yn dod i mewn i'r ysgol drwy'r giat flaen sydd ar ochr dde yr adeilad o'r maes parcio. Ar ddiwedd y dydd, byddwn yn agor y giat ar gyfer rheini/gofalwyr y plant o ddosbarthiadau penodol. Gofynnwn i un rhiant/ofalwr yn unig ddod i gasglu'r plentyn er mwyn lleihau niferoedd o oedolion ar y buarth. Unwaith eto, os mai am 2.45 y bydd eich plentyn yn gorffen, yna dim ond rhieni y plant o'r dosbarthiadau hyn a ddylai ddod ar y buarth i gasglu'r plant. Bydd hyn yn ein cynorthwyo gyda'n trefniadau i leihau y nifer o bobl fydd ar y buarth ar yr un amser. Unwaith y bydd eich plentyn wedi ei ryddhau i chi, dylech ddilyn y system un ffordd drwy fuarth yr ysgol, (smotiau melyn ac arwyddion), at y mynediad ar ochor arall yr adeilad. Gofynnir i bob rhiant/ofalwr barchu rheolau ymbellau cymdeithasol pan yn casglu'r plant.(Bydd gan rhieni/gofalwyr plant y dosbarth meithrin drefniadau gwahanol)

Gwisg ysgol - Gyda pob plentyn yn dychwelyd i'r ysgol, bydd gofyn i'r plant wisgo gwisg ysgol. Mae manylion ynglyn a polisi gwisg ysgol wedi ei ddosbarthu ar sawl achlysur yn y gorffennol, ac y mae hefyd ar gael ar wefan yr ysgol.

Yn y dosbarth

Bydd yr amserlen ddyddiol yn wahanol i'r un arferol.

Bydd amseroedd cinio ac egwyl ar amseroedd gwahanol i grwpiau gwahanol.

Cedwir ffenestri a drysau allanol dosbarthiadau ar agor i sicrhau llif awyr iach cyson.

Bydd rhai plant sydd yn dod a brechdanau i ginio, yn bwyta cinio o fewn y dosbarth.

RHAID sicrhau fod bocs bwyd wedi ei labelu gyda enw'r plentyn. Bydd sbwriel bocs bwyd yn cael ei ddychwelyd adref yn y bocs bwyd.

Ni roddir caniatad i'r plant ddod a eitemau, cas pensiliau, offer, teganau o adref. Bydd y plant yn defnyddio offer cyfyngedig yn y dosbarth.

Bydd amserlen benodol ar gyfer toiledau. Bydd cyfleoedd rheolaidd i ddefnyddio'r toiled yn ystod y dydd.

Os y bydd eich plentyn yn cychwyn teimlo yn sal, byddwn yn cysylltu gyda'r rhiant/gofalwr i drefnu rhywun i ddod gasglu'r plentyn o'r ysgol.

Addysg Gorfforol - Bydd yr athro/awes ddosbarth yn eich hysbysu o pa ddiwrnod y bydd eich plenty yn cymryd rhan mewn gwersi addysg gorfforol. Ar y dyddiau hyn, gofynnwn i'ch plentyn ddod i'r ysgol yn ei gwisg addysg gorfforol. Yn unol a pholis'r ysgol, gofynnir i bob plentyn wisgo shorts glas tywyll a chrys T glas/polo yr ysgol. Bydd angen trainers neu pymbys addas ar gyfer gweithgareddau tu allan. Gall y plant wisgo tracwisg dros ei cit addysg gorfforol I ddod i'r ysgol ar ddiwrnodiau oer,

Cinio - Mi fydd cinio ysgol ar gael i'r rhai fydd yn dymuno, o ddydd Iau Medi'r 3ydd ymlaen. Mae newidiadau wedi ei cyflwyno i'r fwydlen (gweler copi o'r fwydlen newydd, ymddiheurwn ei fod ar gael yn Saesneg yn unig). Bydd y plant yn bwyta cinio ysgol yn y neuadd o fewn amseroedd penodol. Bydd cyfnod cino wedi ei leihau i 45 munud i bob plenty, a fydd yn rhoi amser digonol i'r plentyn fwyta cinio a chael cyfnod awyr iach tu allan. Bydd plant a fydd yn dod a brechdanau eu hunain yn bwyta yn y dosbarth. Byddai'n hwyluso trefniadau iechyd a diogelwch, os y byddai taliadau cinio yn cael ei gwneud ar-lein. Cysylltwch gyda'r swyddfa os ydych angen y wybodaeth berthnasol i wneud hyn.

Cyswllt athro/rhiant - Ar hyn o bryd, ni fydd yr athrawon dosbarth yn gallu cyfarfod wyneb i wyneb gyda rhieni/gofalwyr. Os oes mater pwysig yr hoffech ei drafod ynglyn a addysg eich plentyn, yna bydd angen gwneud hyn drwy alwad ffon neu e.bost i'r athro/awes ddosbarth.

Clwb Brecwast & Clwb ar ôl ysgol - Gan y bydd gwasanaethau clwb brecwast a chlwb ar ôl ysgol ar gael, bydd rhai sefyllfaoedd yn codi ble na fydd yn bosib i gadw grwpiau oedran arwahan yn gyfangwbl ar bob cyfnod o'r dydd. Dylech fel rhieni/gofalwyr fod yn ymwybodol o'r sialensau sydd yn ymwneud a hyn. **Dim ond i rieni/gofalwyr sydd heb unrhyw opsiynau eraill ar gael iddynt o ran gofal plant y byddwn yn cynnig darpariaeth clwb brecwast a chlwb ar ôl ysgol. Os oes rhaid gwneud defnydd o'r clybiau hyn, bydd angen i chi sicrhau eich bod wedi gwneud cais am le yn y clwb brecwast ac yn y clwb ar ôl ysgol gan mai nifer cyfyngedig o leoedd fydd ar gael.** Ar gychwyn y tymor lleolir y clwb ar ôl ysgol yn y Neuadd.

Bydd y clwb brecwast ar gael o 7.55 ymlaen, bydd cost o £1 i ddisgyblion sydd yn cyrraedd cyn 8.15. Ni fydd mynediad i'r clwb brecwast ar ol 8.30. Bydd clwb ar ôl ysgol ar gael hyd at 5.30. Cost y clwb ar ol ysgol yw £3.50 hyd at 16.30, ac yna £3.50 ychwanegol hyd at 17.30. Dych drefnu lle yn y clybiau drwy swyddfa'r ysgol mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk

Byddwn yn cymryd camau priodol megis golchi dwylo ac atgoffa plant i osgoi cyswllt agos gyda'i gilydd.

Gweler yr amserlen ar gyfer cychwyn y tymor. O ddydd Llundun Medi 14eg, bydd pob dosbarth(heb law am y dosbarth meithrin) yn mynychu, gan ddilyn yr un amseroedd a ddefnyddwyd yn ystod y sesisynau cychwynnol. Ar y dyddiau pan na fydd eich plentyn yn mynychu dros y cyfnod paratoi yma ar gychwyn y tymor, bydd gweithgareddau dosbarth ar gael i'ch plentyn drwy gyfrif HWB eich plentyn, gan gael mynediad i Google Classrooms. Bydd hyn yn galluogi i'ch plentyn barhau gyda peth gwaith adref.

Llun/Monday	Mawrth/Tuesd.	Merch./Wedns.	Iau./Thursd. 3.9.20	Gwen./Frid. 4.9.20
			Derbyn/Reception (Grwp1 / Group1) Bl. 1&2 / Yr.1&2 9.15 - 2.45	Blwyddyn 3&4 Bl. 5&6 / Yr.5&6 (dosbarth Mr S.Owen) 8.55 - 3.00
Llun/Monday 7.9.20	Mawrth/Tuesd. 8.9.20	Merch./Wedns. 9.9.20	Iau./Thursd. 10.9.20	Gwen./Frid. 11.9.20
Nursery/Meithrin 9.30-11.30 Bl. 5&6 / Yr.5&6 Dosbarth Mrs M Williams Miss E Evans 8.55-3.00	Nursery/Meithrin 9.30-11.30 Derbyn/Reception (Grwp2 / Group2) 9.15 - 2.45 Bl. 5&6 / Yr.5&6 (dosbarth Mr S.Owen) 8.55-3.00	Nursery/Meithrin 9.30-11.30 Blwyddyn/Year 3&4 Bl. 5&6 / Yr.5&6 Dosbarth Mrs M Williams Miss E Evans 8.55-3.00	Nursery/Meithrin 9.30-11.30 Derbyn/Reception (dosbarth cyfan Whole class) 9.15 - 2.45 Bl. 1&2 / Yr.1&2 9.15 - 2.45	Nursery/Meithrin 9.30-11.30 Blwyddyn/Year 3&4 Bl. 5&6 / Yr.5&6(all) 8.55-3.00

Amseroedd gychwyn a gorffen dros y cyfnod dychwelyd i'r ysgol yn mis Medi.(3.9.20-11.9.20)

Meithrin/Nursery - 9.30 - 11.30
Derbyn / Reception - 9.15 - 2.45
Blwyddyn 1 & 2 - 9.15 - 2.45
Blwyddyn 3 - 6 - 8.55 - 3.00

Amseroedd gychwyn a gorffen o Fedi 14eg ymlaen

Meithrin/Nursery - 9.00 - 11.30
Derbyn / Reception - 9.15 - 2.45
Blwyddyn 1 & 2 - 9.15 - 2.45
Blwyddyn 3 - 6 - 8.55 - 3.00

Mae'r trefniadau ar gychwyn y tymor wrth i'r plant ddychwelyd i drefn ysgol yn mynd i fod yn heriol i bawb, ac felly gofynnwn yn garedig am gydweithrediad pawb gyda'r trefniadau hyn. Cofiwch gadw golwg allan ar wefan yr ysgol, Schoop, safle Trydar yr ysgol, yn ogystal a App yr ysgol ar gyfer gwybodaeth a newyddion arwyddocaol, yn arbennig wrth agосу tuag at gychwyn y tymor newydd.
Diolch yn fawr.

Yn gywir,

Mr Rhodri Jones
Pennaeth